# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



## Pedr

# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Pedr

**Gwybodaeth Gefndirol**

- Pysgotwyr oedd Pedr a'i frawd Andreas cyn i Iesu eu galw nhw i'w ddilyn a bod yn ddisgyblion iddo.
- Simon oedd enw Pedr go iawn, ond rhoddodd Iesu yr enw Pedr iddo, sy'n golygu 'craig'.
- Roedd Pedr yn gallu bod yn benstiff ac yn fyrbwyll.

**Beth Ddigwyddodd**

- Yn y Swper Olaf, dywedodd Iesu wrth Pedr y byddai e'n gwadu ei fod yn adnabod Iesu dair gwaith cyn i'r ceiliog ganu.
- Pan gafodd Iesu ei arestio yng Ngardd Gethsemane, tynnodd Pedr ei gleddyf allan i amddiffyn Iesu a thorrodd glust un o weision yr archoffeiriad i ffwrdd.
- Ar ôl i Iesu gael ei arestio, aeth Pedr i dŷ yr archoffeiriad i ddarganfod beth oedd yn digwydd i Iesu. Tra roedd yno cafodd Pedr ei herio deirgwaith a oedd yn adnabod Iesu, a gwadodd hynny bob tro. Yna clywodd y ceiliog yn canu.
- Ar ôl i Iesu ddod yn ôl yn fyw, gofynnodd i Pedr dair gwaith os oedd yn ei garu. Atebodd Pedr bob tro gyda'r geiriau, "Rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di." Yna meddai Iesu wrth Pedr, "Gofala am fy nefaid i." Ystyr hyn oedd fod Iesu eisiau i Pedr ofalu am bobl Dduw. Roedd y sgwrs hon rhwng Iesu a Pedr yn dangos fod Iesu wedi maddau i Pedr am wadu ei fod yn ei adnabod.

**Diffiniad**

- Gwadu: Ystyr gwadu yw datgan nad ydy rhywbeth yn wir.

**Beth Allwn ei Ddysgu**

- Dangosodd Pedr deyrngarwch a dewrder wrth amddiffyn Iesu yn yr ardd, ond yn ddiweddarach roedd yn ofni am ei fywyd. Ar ôl i Iesu ddod yn ôl yn fyw, cysurodd Pedr a'i annog, ac aeth Pedr yn ei flaen i ddechrau'r eglwys Gristnogol gyntaf. Wnaeth ofnau Pedr mo'i rwystro rhag cyflawni pethau mawr.

**Ystyried**

- Pam wyt ti'n meddwl wnaeth Iesu ddewis Pedr i fod yn un o'i ddisgyblion?
- Wyt ti wedi teimlo erioed dy fod wedi siomi rhywun? Sut wnest ti, neu'r person arall, wneud pethau'n iawn eto?
- Pa bethau wyt ti'n eu hofni? Sut wyt ti'n dod dros yr ofnau yna?